Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Hyd a chyflwr ffyrdd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Adroddiad sy'n dangos gwybodaeth yn ôl dosbarth y ffordd ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Awst 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Awst 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Prif bwyntiau**

**Ffyrdd wedi'u rheoli gan Lywodraeth Cymru**

**Atal sgidio ar draffyrdd a chefnffyrdd A**

**Gwybodaeth am ansawdd**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau


- Cyfanswm hyd y ffyrdd yng Nghymru yn 2022-23 oedd tua 35,150 km, cynnydd o 0.1% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (2021-22). Cymharol ychydig y mae cyfanswm hyd y ffyrdd yng Nghymru yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2022-23 roedd y cynnydd ar y ffyrdd yn bennaf oherwydd mabwysiadu ffyrdd newydd ac adolygiadau o'r rhwydwaith.
- Powys sydd â'r rhwydwaith ffyrdd mwyaf o awdurdodau lleol Cymru. Mae ganddo'r gyfran uchaf o'r holl gefnffyrdd (27.3%), ffyrdd B a C (21.0%) ac is-ffyrdd â wyneb caled (12.3%) ac mae'n cyfrif am 15.7% o gyfanswm hyd ffyrdd Cymru.
- Yn 2022-23, roedd angen monitro cyflwr strwythurol yn agos at 7.4% o'r rhwydwaith traffyrdd a 2.6% o'r rhwydwaith cefnffyrdd. Mae hyn yn cymharu â 7.3% a 2.5% yn y drefn honno yn 2021-22.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Cyfanswm hyd y ffyrdd yng Nghymru yn ôl dosbarthiad ffyrdd, 2022-23 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart gylch yn dangos dadansoddiad o gyfanswm hyd y ffordd yng Nghymru yn ôl eu dosbarthiad ym mlwyddyn ariannol 2022-23.

Ffynhonnell: Ystadegau hyd a chyflwr ffyrdd, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

Mae chwe dosbarthiad ar gyfer ffyrdd â wyneb caled yng Nghymru: traffyrdd, cefnffyrdd A, ffyrdd sirol A, ffyrdd B, ffyrdd C ac is-ffyrdd â wyneb caled. Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer traffyrdd a chefnffyrdd, ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd sirol A, ffyrdd B a C, ac is-ffyrdd â wyneb caled.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Casnewydd sydd â'r darn hiraf o draffordd (26 km), sy'n cyfrif am 19.2% o gyfanswm traffordd Cymru.
- Powys sydd â'r rhwydwaith ffyrdd hiraf gyda 5,510 km o ffordd, ac yna Sir Gaerfyrddin gyda 3,688 km. Mae rhan fwyaf y rhwydweithiau yn y ddau awdurdod hwn yn is-ffyrdd (categorïau B, C ac is-ffyrdd â wyneb caled).

**Mae dadansoddiadau gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ar gael ar StatsCymru**.

# Ffyrdd wedi'u rheoli gan Lywodraeth Cymru

## Cyflwr strwythurol traffyrdd a chefnffyrdd


O ddiwedd mis Mawrth 2023, mae canlyniadau arolygon Defflectograff (**gweler nodiadau**) yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r rhwydwaith wedi'i ystyried mewn cyflwr da, ac amcangyfrifir na fydd angen monitro agos at 76.3% o'r draffordd ac 84.5% o gefnffyrdd am o leiaf 20 mlynedd.

Mae'r adran hon yn ymdrin â chyflwr y rhwydwaith ffyrdd, sy'n cael ei arolygu bob blwyddyn i ganfod ei gyflwr strwythurol. Dangosodd yr arolwg fod angen monitro agos at 7.4% o'r draffordd a 2.6% o'r rhwydwaith cefnffyrdd ar hyn o bryd. Dangosodd yr arolwg hefyd y bydd angen monitro agos at 3.1% o'r draffordd a 2.2% o'r cefnffyrdd yn ystod y pedair blynedd nesaf.

Un ffactor sy'n effeithio ar gyflwr ffyrdd yw pam mor drwm yw'r traffig. Yn 2022, mae **amcangyfrifon traffig ffyrdd a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth**, yn dangos bod y traffig yng Nghymru yn 3.7 biliwn cilomedr o gerbydau ar y draffordd, a 7.3 biliwn cilomedr o gerbydau ar gefnffyrdd. Mae traffig fesul darn o'r ffordd yn llawer mwy ar draffyrdd o'i gymharu â chefnffyrdd, ffyrdd sirol ac is-ffyrdd (Traffig Ffyrdd).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2: Cyfran y traffyrdd a'r cefnffyrdd yng Nghymru sydd angen monitro eu cyflwr strwythurol yn agos, 2019-20 i 2022-23 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae Ffigur 2 yn dangos cyfran y traffyrdd a’r cefnffyrdd yng Nghymru oedd angen monitro eu cyflwr strwythurol yn agos ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2019-20 i 2022-23.

Ffynhonnell: Ystadegau Hyd a Chyflwr Ffyrdd, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Yn seiliedig ar ganlyniadau arolygon Defflectograff (gweler yr **adran fethodoleg** am fwy o wybodaeth). Mae angen monitro cyflwr strwythurol rhan o'r ffordd yn fanwl pan fydd ganddi oes gweddilliol negyddol. Nid yw hyn yn cynnwys palmentydd concrit a cherbytffyrdd uchel.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Atal sgidio ar draffyrdd a chefnffyrdd A

Mae atal sgidio yn gysylltiedig ag arwynebau ffordd gwlyb neu laith. Mae'n adlewyrchu cyflwr wyneb y ffordd trwy fesur ffrithiant rhwng teiars cerbydau a'r ffordd wrth gyflymu, brecio neu droi cornel. Mae profion yn digwydd ar arwynebau gwlyb gan fod gan arwynebau lai o ffrithiant a llai o allu i atal sgidio pan fyddant yn wlyb. Cafodd bron pob arwyneb traffordd a 94.0% o arwynebau Cefnffyrdd A eu harolygu yn 2022-23.

Mae gallu’r M4 i atal sgidio yn dda, gyda dim ond 0.2% o'r arwyneb a arolygwyd islaw lefel ymchwil yn 2022-23. Ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd, canfuwyd bod 10.2% o'r arwyneb a arolygwyd ar lefel ymchwil neu'n is yn 2022-23, i fyny o 8.7% yn y flwyddyn flaenorol.

Nodyn: Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg SCRIM (gweler yr **adran fethodoleg** am fwy o wybodaeth). 'Nid yw 'ar lefel ymchwil neu is' yn golygu nad yw'r ffyrdd yn ddiogel; mae'n nodi bod angen ymchwil pellach i benderfynu ar yr angen i gynnal a chadw'r rhan honno o'r ffordd.

## Gwybodaeth am ansawdd

### Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau hyd a chyflwr ffyrdd ac yng nghyfrifiadau Asesiad Gwariant Safonol (SSA), a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid i awdurdodau lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cywirdeb

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y **nodyn technegol a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT)**.

## Hyd ffyrdd

Roedd y cynnydd bach yn 2022-23 o ganlyniad i fabwysiadu rhai ffyrdd yn ogystal ag adolygiad rhwydwaith parhaus yn Sir Gaerfyrddin.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r ystadegau ar hyd a chyflwr ffyrdd yn ymwneud â data a gafwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23.

## Hygyrchedd ac eglurder

Cyhoeddir y bwletin ystadegol hwn ymlaen llaw ac yna ei gyhoeddi ar wefan **Ystadegau Cymru** ac mae tablau ar **ein** gwefan **StatsCymru** i gyd-fynd ag ef.

## Cymharoldeb a chydlyniaeth

### Cyflwr ffyrdd awdurdodau lleol

Casglwyd y set ddata hon yn flaenorol fel rhan o **Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) dan arweiniad Data Cymru**. Daeth PAMs i ben yn 2020-21. Rydym yn croesawu barn defnyddwyr ar ofynion y data hwn ar hyn o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bryd ac yn y dyfodol.

## Arolygon defflectograff

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu dau brif ddull o brosesu data Defflectograff. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru’r dull Defflec ar gyfer pob arolwg hyd at 2014-15. Ers 2015-16, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull prosesu Pandef.

Mae hyn yn arwain at ddiffyg parhad yn y data rhwng 2014-15 a 2015-16. Fodd bynnag, mae'r newid hwn mewn meddalwedd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r dulliau a ddefnyddir gan weddill y DU, gan gynnwys Highways England a Transport Scotland.

## Arolygon SCRIM

O ganlyniad i'r amrywiad hwn yn y priodweddau sgidio, tan 2005, cynhaliwyd arolygon SCRIM o'r rhwydwaith cefnffyrdd ar draean o'r rhwydwaith bob blwyddyn, gyda phob hyd yn cael ei arolygu dair gwaith y flwyddyn (ar ddechrau, canol a diwedd tymor yr arolwg SCRIM).

Fodd bynnag, roedd newid yn y dull o arolygu cefnffyrdd o 2005, fel bod mesuriadau atal sgidio bellach yn cael eu cynnal bob blwyddyn o dan un drefn arolygu flynyddol. Mae'r arolygon wedi'u trefnu fel bod y rhwydwaith, dros gyfnod o dair blynedd, yn cael eu harolygu ar ddechrau, canol a diwedd y tymor profi mewn blynyddoedd dilynol, h.y. bydd hyd a arolygwyd ar ddechrau y flwyddyn gyntaf yn cael ei arolygu ar ganol y tymor yn yr ail flwyddyn ac yna ar ddiwedd y tymor yn y drydedd flwyddyn.

Mae Highways England (Highways Agency gynt) wedi cynnal treialon cydberthynas blynyddol ar gyfer cerbydau arolwg SCRIM, sy'n cael eu cynnal ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hyn o bryd gan TRL. Mae'n ofynnol i bob cerbyd SCRIM sy'n cynnal arolygon ar gefnffyrdd basio'r treialon er mwyn cynnal arolygon ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Mae cwmnïau eraill arolygon SCRIM hefyd yn gallu mynd i'r treialon, er nad yw'n orfodol. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol sy'n comisiynu arolygon SCRIM fel arfer yn disgwyl y bydd y cerbydau SCRIM a ddefnyddir ar eu rhwydwaith wedi pasio'r treialon, ac felly yn ymarferol canfuwyd fod pob cerbyd SCRM sy'n gweithredu yn y DU yn mynd i'r treialon. Yn y treialon mae'n ofynnol i'r cerbydau SCRIM gynnal arolygon ar nifer o safleoedd sydd â gwahanol lefelau o ymwrthedd sgidio a caiff y data ei gymharu i nodi allanolion. Nod y treialon felly yw sicrhau cysondeb ar draws y fflyd o gerbydau sy'n gweithredu yn y DU.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau** .

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus. Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Chwefror 2011 yn dilyn **asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer**.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Mireinio ac ychwanegu at wybodaeth am ansawdd a chysylltiadau â pholisi a thargedau.
- Gwella ein dealltwriaeth o'r gwahanol ffynonellau data a'r fethodoleg y tu ôl iddynt, gan gynnwys eu cryfderau a'u cyfyngiadau.
- Ychwanegu ffynonellau data perthnasol newydd i roi golwg ehangach ar y pwnc.
- Gwella'r elfen weledol drwy symleiddio a safoni siartiau a thablau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant i Gymru, sef sicrhau Cymru iachach a mwy cyfartal, ffyniannus, cydnerth a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol rhaid iddynt (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost at **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: James Khonje
E-bost: **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 22/2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/hyd-chyflwr-ffyrdd-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.